Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygu Trefniadau Cynllunio'r Gweithlu – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 3746A2023

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 8

Atodiadau

Atodiad 1—Dulliau archwilio 19

Atodiad 2—Dangosyddion gweithlu dethol 21

Atodiad 3—Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 27

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae gweithlu sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal o ansawdd da. Mae'r GIG yn cyflogi amrywiaeth o staff clinigol ac anghlinigol sy'n darparu gwasanaethau ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol, sy'n cynrychioli un o fuddsoddiadau mwyaf y GIG. Dros y blynyddoedd, mae llawer bryderon wedi eu cofnodi am gynaliadwyedd gweithlu'r GIG, ac amlygir heriau'r gweithlu yn rheolaidd i ni yn ein hadolygiadau archwilio ac ymgysylltu parhaus â chyrff iechyd. Er gwaethaf cynnydd cyffredinol yng ngweithwyr y GIG, mae'r pryderon hyn yn parhau. Mae bylchau yn y gweithlu yn enwedig o ddifrifol ar gyfer rhai proffesiynau megis meddygon teulu, nyrsys, radiolegwyr, pediatregwyr, offthalmolegwyr (Darlun o Ofal iechyd (2021) ond ar gyfer gweithwyr proffesiynol digidol hefyd. Ym maes nyrsio yn unig, adroddodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru 2,900 o swyddi gwag yn ei ddadansoddiad Niferoedd Nyrsio 2022. Yn ogystal â hynny, mae'r sector gofal cymdeithasol, sy'n ategu'r sector iechyd, yn wynebu ei broblemau gweithlu ei hun hefyd. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r heriau hyn wrth i'r sector iechyd geisio adfer gwasanaethau.

2 O ystyried yr heriau presennol, mae cynllunio gweithlu cadarn ac arloesol yn bwysicach nag erioed. Mae cynllunio gweithlu effeithiol yn sicrhau bod gan wasanaethau cyfredol a gwasanaethau'r dyfodol y gweithlu sydd ei angen i ddarparu'r lefelau disgwyliedig o wasanaeth yn effeithiol ac yn ddiogel. Mae angen i gynlluniau gweithlu cenedlaethol a lleol ragweld y galw am wasanaethau a lefelau staffio dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Ond mae ystod o ffactorau cymhleth sy'n effeithio ar ragdybiaethau cynllunio, gan gynnwys:

- materion proffil oedran y gweithlu, ymddeoliad, a threthiant pensiwn;
- agweddau sy'n newid, tuag at weithio llawn amser a rhan-amser;
- datblygu talent frodorol a'r gallu i ddenu talent o'r tu allan i'r wlad, i Gymru;
- trawsnewid gwasanaeth a all newid swyddogaethau ac arwain at gynyddu arbenigedd swyddogaethau.

3 Fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2021, ac mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gorff GIG cymharol newydd sy'n arwain ac yn cefnogi trawsnewidiad digidol ledled GIG Cymru gyda'r bwriad o wella'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol 2022–25 Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Medi 2022.

4 Pwyslais allweddol ein hadolygiad fu a yw dull cynllunio gweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei helpu i fynd i'r afael yn effeithiol â heriau gweithlu cyfredol y GIG a'i heriau gweithlu yn y dyfodol. Yn benodol, gwnaethom edrych ar ei ddull strategol ar gyfer ymdrin â'r hyn a ganlyn: cynllunio'r gweithlu, camau gweithredol i reoli heriau cyfredol a heriau yn y dyfodol, a monitro a goruchwylio trefniadau. Mae trefniadau rheoli'r gweithlu gweithredol, megis defnyddio staff asiantaeth yn weithredol, y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.

5 Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwella ei ddull strategol o gynllunio'r gweithlu a'i fod yn cymryd camau i reoli heriau presennol y gweithlu, ond bod lle i ganolbwyntio'n fwy ar y tymor hwy ac i wella trefniadau monitro a goruchwylio er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael yr effaith a ddymunir**.

### Heriau allweddol i gynllunio'r gweithlu

7 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd her allweddol y gweithlu yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymwneud â llenwi swyddi gwag presennol ac yn y dyfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol digidol, mewn marchnad fasnachol hynod gystadleuol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi nodi bod disgwyl i'r galw am weithwyr digidol proffesiynol barhau i dyfu'n sylweddol dros y degawd nesaf. Ers ei sefydlu, bu twf o oddeutu 25% yng ngweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac roedd ganddo ychydig o dan 1,100 o staff cyfwerth ag amser llawn ym mis Mawrth 2023 (**Arddangosyn 6**). Er ei fod wedi cadw costau asiantaeth cyn ised â phosibl hyd yma (**Arddangosyn 8**), gallai'r rhain gynyddu os bydd y sefydliad yn parhau i dyfu ar gyfradd y mae wedi gwneud hynny yn y gorffennol. O'i gymharu â chyrff eraill y GIG, mae gan y sefydliad gyfraddau trosiant a swyddi gwag cymharol isel (**Arddangosion 9 a 10**).

### Dull strategol o gynllunio'r gweithlu

8 **Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwella ei ddull strategol o gynllunio'r gweithlu, ond mae angen cynllun gweithredu arno i arwain yr hyn a gyflawnir a rhagor o bwyslais ar fynd i'r afael â risgiau yn y dyfodol**.

9 Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn canolbwyntio ar y tymor byr i'r tymor canolig, ac er bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cymryd camau i wella'r broses o gynllunio'r gweithlu strategol, mae angen iddo bwysleisio'n fwy ar risgiau tymor hwy y gweithlu. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes gan y sefydliad gynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r strategaeth hyd yma. Mae'r sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol i ddeall gofynion cyfredol a dyfodol y gweithlu yn well ac mae'n gwella'r wybodaeth am y gweithlu drwy ddatblygu cynlluniau gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth. Mae ymrwymiad i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau cyfredol a dyfodol y gweithlu.

### Camau gweithredol i reoli heriau gweithlu

10 **Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli ei heriau gweithlu a'i risgiau cyfredol yn effeithiol, ond bydd angen iddo gadw golwg cyson ar ei adnoddau er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio ei weithlu**.

11 Yn y tymor byr, mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru lefel resymol o adnoddau ar gyfer cefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu, ond bydd angen iddo adolygu hyn yn gyson wrth i'r sefydliad barhau i dyfu a newid. Mae'r sefydliad yn deall ac yn rheoli risgiau ei weithlu yn weithredol â chamau lliniaru sy'n helpu i leihau lefel risg y gweithlu. Mae gan ddatblygu cynlluniau gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth a gwella data am y gweithlu y potensial o dynnu sylw at risgiau newydd yn y gweithlu. Bydd angen parhau i adolygu hyn wrth i gynlluniau'r gyfarwyddiaeth ddatblygu. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli ei heriau gweithlu presennol yn weithredol ac yn briodol drwy amrywiaeth o weithgareddau recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu.

**Monitro a goruchwylio'r cynllun gweithlu/y broses o gyflawni'r strategaeth**

12 **Er bod y Bwrdd yn parhau i oruchwylio materion y gweithlu'n rhesymol, mae angen iddo ganolbwyntio'n gryfach ar y graddau y mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn cael effaith**.

13 Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn rhesymol, a derbyniodd ddiweddariad blwyddyn un ym mis Medi 2023. Mae hefyd yn goruchwylio nifer cyfyngedig o fetrigau perfformiad y gweithlu drwy ei Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig a gwybodaeth am berfformiad y gweithlu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella metrigau gweithlu, adroddiadau diweddaru y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, ac i bwysleisio'n fwy ar effaith.

# Argymhellion

14 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Mae'r rhain yn cynnwys ein hasesiad blaenoriaeth. Crynhoir ymateb Iechyd a Gofal Digidol Cymru i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Cynllun gweithredu**<br>A1 Er bod y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cynnwys camau gweithredu a mesurau lefel uchel, dylai'r sefydliad ddatblygu cynllun gweithredu manwl i helpu i fonitro'r broses o gyflawni'r strategaeth. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys cerrig milltir, mesurau effaith, targedau ac arweinydd cyfrifol ar gyfer pob cam gweithredu neu flaenoriaeth **(blaenoriaeth uchel).** |

**Argymhellion**

**Rheoli risgiau**

A2 Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu cynlluniau gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth ac yn gwella data am y gweithlu, sydd â'r potensial o dynnu sylw at risgiau newydd yn y gweithlu. Dylai'r sefydliad adolygu'r wybodaeth yn ei gofrestrau risg corfforaethol a strategol gan ddefnyddio mewnwelediad newydd o gynlluniau'r gweithlu er mwyn nodi risgiau newydd posibl a'r ffynonellau sicrwydd ychwanegol y mae eu hangen **(blaenoriaeth uchel)**.

**Monitro perfformiad**

A3 Canfuom fod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth reolaidd, ond cyfyngedig, am berfformiad y gweithlu yn yr Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwella sylfaen ei wybodaeth am y gweithlu. Wrth i'r data am y gweithlu wella, dylai'r sefydliad adolygu'r metrigau gweithlu a gyflwynir i'r Bwrdd gyda'r bwriad o'u hehangu nhw, gan gynnwys naratif am gamau gweithredu i fynd i'r afael â thanberfformiad ac effaith newidiadau sy'n datblygu yn y gweithlu ar y broses o ddarparu gwasanaethau **(blaenoriaeth uchel)**.

**Goruchwylio'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol**

A4 Ym mis Medi 2023, derbyniodd y Bwrdd adroddiad cynnydd un mlynedd ar gyflawni'r strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol; er ei fod yn gadarnhaol, mae fformat naratif yr adroddiad yn ei gwneud yn anodd mesur union gynnydd ac effaith y camau gweithredu. O leiaf ddwywaith y flwyddyn, dylai'r Bwrdd dderbyn diweddariad ar gynnydd y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol o'i gymharu â'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth, ac ar ôl ei ddatblygu, o'i gymharu â'r cynllun gweithredu gan gynnwys metrigau allweddol **(blaenoriaeth uchel)**.

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

15 Mae'r tri thabl canlynol yn nodi'r meysydd yr ydym wedi eu hadolygu a'n canfyddiadau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr hyn a ganlyn:

- dull cynllunio gweithlu strategol y corff gwasanaeth iechyd (**Arddangosyn 2**);
- camau gweithredol i reoli heriau gweithlu (**Arddangosyn 3**); a
- monitro a goruchwylio'r cynllun gweithlu/y broses o gyflawni'r strategaeth (**Arddangosyn 4**).

**Arddangosyn 2: dull strategol o gynllunio'r gweithlu**

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ddull cynllunio strategol y corff gwasanaeth iechyd. Ar y cyfan, canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwella ei ddull strategol o gynllunio'r gweithlu, ond bod angen cynllun gweithredu arno i arwain yr hyn a gyflawnir a rhagor o bwyslais ar fynd i'r afael â risgiau yn y dyfodol**.

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
|---|---|
| Gwnaethom ystyried a yw strategaeth neu gynlluniau gweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn debygol o fynd i'r afael â'r risgiau i'r gweithlu cyfredol ac yn y dyfodol.<br><br>Roeddem yn disgwyl gweld strategaeth neu gynllun gweithlu sy'n gwneud yr hyn a ganlyn:<br><br>• adnabod heriau gweithlu cyfredol ac yn y dyfodol; | Canfuom, **er ei fod yn canolbwyntio ar y tymor byr i'r tymor canolig, fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cymryd camau i wella ei broses cynllunio gweithlu strategol, ond bod angen cynllun gweithredu manwl ar y sefydliad i gefnogi'r broses o gyflawni'r strategaeth.**<br><br>Mae Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol tair blynedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (2022–25) yn nodi ei weledigaeth o fod yn 'lle gwych i weithio lle mae ein pobl yn ymgysylltu'n llawn, yn perfformio'n dda ac yn ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad'. Er mwyn helpu i gyflawni ei weledigaeth, mae'r strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn canolbwyntio ar chwe thema, sef: arweinyddiaeth eithriadol, sefydliad gwych i weithio ynddo, cynllunio gweithlu strategol, tyfu ar eich pen eich hun, llesiant ac ymgysylltu, a ffyrdd newydd o weithio. O ystyried oedran y sefydliad, ei |

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
|---|---|
| • bod â gweledigaeth ac amcanion clir;<br>• alinio ag amcanion strategol y sefydliad a chynlluniau sefydliadol ehangach;<br>• cyd-fynd â chynlluniau, polisïau a deddfwriaeth cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys strategaeth gweithlu cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol;<br>• cael ei gefnogi gan gynllun gweithredu clir. | gylch gwaith a'i heriau gweithlu presennol, mae'r chwe maes hyn y pwysleisir arnynt yn ymddangos yn rhesymegol.<br><br>Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cefnogi'n briodol yr uchelgeisiau a nodir yn strategaeth gweithlu cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Gweithlu y GIG, ac mae'n gyson â deddfwriaeth berthnasol, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a safonau'r Gymraeg. Gan weithredu fel corff cenedlaethol, mae hefyd yn nodi ei fwriadau ehangach o ran cynllunio gweithlu strategol[1].<br><br>Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gyson â Chynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Fel galluogwr, nod y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yw helpu'r sefydliad i gyflawni ei genhadaeth strategol o fod yn 'bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel'.<br><br>Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cynnwys camau gweithredu lefel uchel sy'n amlinellu sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei flaenoriaethau gweithlu. Er bod gan y sefydliad fesurau gweithlu lefel uchel, nid oes cynllun gweithredu i'w cyflawni nhw. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu cynllun gweithredu i helpu i fonitro'r broses o gyflawni'r strategaeth, dylai'r cynllun gynnwys cerrig milltir, mesurau effaith, targedau ac arweinydd cyfrifol ar gyfer pob cam gweithredu neu flaenoriaeth (**Argymhelliad 1**). |

[1] Er enghraifft, cydweithredu â'r proffesiwn digidol i ddatblygu cynlluniau cenedlaethol sy'n gyson â'r Strategaeth Ddigidol Genedlaethol a Digital, Data and Technology (DDaT) Profession Capability Framework Llywodraeth y DU.

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
| --- | --- |
| Gwnaethom ystyried a oes gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddealltwriaeth dda o ofynion gwasanaethau presennol ac yn y dyfodol. Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• defnydd o wybodaeth ddibynadwy am y gweithlu i bennu anghenion a risg y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hwy;<br>• camau gweithredu i wella ansawdd y data am y gweithlu ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau gwybodaeth. | Canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cymryd camau cadarnhaol tuag at well dealltwriaeth o ofynion ei weithlu cyfredol a'i weithlu yn y dyfodol a'i fod yn gwella'r data am y gweithlu**.<br><br>Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn coladu ac yn dadansoddi gwybodaeth am y gweithlu, ond nid yw ei ddulliau yn gwbl aeddfed eto. Mae wedi sefydlu gwybodaeth sylfaenol am y gweithlu, er enghraifft, ei sefydliad, a'i gyfraddau trosiant, salwch ac arfarnu. Ond mae angen cynllunio senarios gweithlu mwy soffistigedig a dadansoddi bylchau er mwyn rhagweld anghenion y gweithlu yn well ar gyfer y dyfodol.<br><br>Ar adeg ein hadolygiad, roedd y sefydliad yn dechrau gwella'r wybodaeth am ei weithlu dryw ddefnyddio dadansoddiad ar lefel y gyfarwyddiaeth a'r gwasanaeth i lywio'r broses o gynllunio gweithlu y gwasanaeth. Roedd yr wybodaeth a goladwyd yn cynnwys gwiriad sylfaenol ar bwy sy'n gweithio ym mhob cyfarwyddiaeth, gan wirio'r angen sy'n ofynnol o'i gymharu â'r angen y cytunwyd arno ar gyfer y sefydliad.<br><br>Roedd hefyd yn meincnodi swyddogaethau o'u cymharu â fframwaith sgiliau Digidol, Data a Thechnoleg (sef DDaT), bylchau sgiliau a nodwyd a gofynion hyfforddiant ac adnoddau. Mae'n rhy gynnar i farnu ansawdd y data ychwanegol a gipiwyd, ond mae'r sefydliad yn dechrau adrodd ar y data newydd hyn sy'n tynnu sylw at sut y gallai gofynion a thueddiadau'r dyfodol siapio ac effeithio ar y gweithlu o ran gallu.<br><br>O'u cymryd gyda'i gilydd, rydym yn deall y bydd y gwaith hwn hefyd yn caniatáu i'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol wirio'r sefydliad a ariennir ar hyn o bryd a chwarae rhan gynyddol yn y gwaith o reoli'r sefydliad ochr yn ochr â'r Tîm Cyllid, oherwydd ei fod yn fwlch yn y broses ar hyn o bryd. |

Gwnaethom ystyried a yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i ddatrys heriau gweithlu cyfredol a'r rhai a ragwelir yn y dyfodol. Roeddem yn disgwyl gweld:

- ymgysylltu effeithiol ac amserol a gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol i fynd i'r afael â materion gweithlu cyfredol a rhai y dyfodol; ac
- atebion a rennir a nodwyd gyda rhanddeiliaid allweddol i helpu i fynd i'r afael â heriau y gweithlu.

Canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau cyfredol a dyfodol y gweithlu**.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dangos ymrwymiad clir i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Er mwyn arwain ei weithgareddau a sicrhau pwyslais parhaus, mae'r sefydliad wedi drafftio strategaeth gyfathrebu yn ddiweddar. Yn fewnol, roedd y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi ei llywio'n dda drwy ymgysylltu â'r staff, er enghraifft, drwy ddigwyddiad arweinyddiaeth uwch, gweithio gyda'r Fforwm Partneriaeth Lleol a'r sylwadau a gafwyd trwy'r arolwg staff blynyddol. Mae Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn ymgysylltu â chyfarwyddiaethau er mwyn datblygu cynlluniau gweithlu ar lefel y gwasanaeth a gwella'r data am y gweithlu, a fydd yn llywio fersiynau o'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn y dyfodol. Mae'r broses hon yn cynnwys ymgysylltu â'r gyfarwyddiaeth, cwblhau templed safonedig, a dadansoddi a gwirio'r data a gyflwynir.

Yn ehangach, mae'r sefydliad yn ymgynghori'n rheolaidd â phartneriaid Undebau Llafur drwy ei Fforwm Partneriaeth Lleol, sy'n bwysig er mwyn deall yr heriau y mae'r staff yn eu hwynebu. Mae canlyniadau arolwg staff hefyd yn dangos perthnasoedd gwaith mewnol cadarnhaol, er ei bod yn ymddangos bod rhagor o waith i'w wneud o ran ymgorffori gwerthoedd sefydliadol.

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddealltwriaeth weddol dda o anghenion, heriau ac uchelgeisiau rhanddeiliaid allweddol, ac mae'n cydnabod yn briodol yr angen i barhau i gryfhau hyn, gan gynnwys yn y tymor hwy. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â gofynion gweithlu digidol, a gofynion gweithlu a alluogir gan dechnoleg. Er enghraifft, gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phrifysgolion i hyrwyddo cyfleoedd gyrfaoedd digidol y GIG yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac yn ehangach ar gyfer y GIG. Mae hyn yn cynnwys ceisio mynd i'r afael ag anghenion cyfredol a rhagweledig y gweithlu digidol drwy bartneriaeth Athrofa Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI)[2], drwy gynnig profiad a lleoliadau gwaith, cefnogi datblygiad cyrsiau digidol sydd, yn eu tro, yn cefnogi modelau gwasanaeth clinigol newydd.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn gweithio gydag AaGIC, ond yn llai na gyda chyrff iechyd eraill, oherwydd pwyslais AaGIC ar swyddogaethau proffesiynol clinigol. Serch hynny, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cymryd rhan mewn rhaglenni perthnasol a gynigir gan AaGIC megis ei rhaglenni arweinyddiaeth.

**Arddangosyn 3: camau gweithredol i reoli heriau gweithlu**

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y camau gweithredu y mae'r corff gwasanaeth iechyd yn eu cymryd i reoli heriau gweithlu. Ar y cyfan, canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli ei heriau gweithlu a'i risgiau cyfredol yn effeithiol, ond bod angen iddo gadw golwg cyson ar ei adnoddau er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio ei weithlu**.

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
| --- | --- |
| Gwnaethom ystyried a yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi nodi digon o adnoddau i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer cynllunio'r gweithlu;<br>• staff â sgiliau priodol i sicrhau bod y gweithlu yn cael ei gynllunio yn gadarn;<br>• capasiti gweithlu digonol ar draws y sefydliad i gynllunio a chyflawni strategaeth neu gynllun y gweithlu; ac | Canfuom fod gan **Iechyd a Gofal Digidol Cymru lefel ddigonol o adnoddau ar gyfer cefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu yn y tymor byr, ond bydd angen iddo adolygu hyn yn gyson wrth i'r sefydliad barhau i dyfu a newid**.<br><br>Yn gorfforaethol, mae swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn glir ac mae ganddynt staff medrus i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dechrau defnyddio'r sgiliau hyn yn fwy helaeth, wrth i'r sefydliad ddatblygu ei gynlluniau gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth. Mae arweinwyr y gwasanaeth yn gallu cael gafael ar hyfforddiant cynllunio gweithlu, er enghraifft, cyflwyniad AaGIC i gynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar y model chwe cham[3], ac ymddengys fod llawer yn ei ddilyn. |

[2] Partneriaeth rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a Phrifysgol De Cymru yw Athrofa Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI).

[3] Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi datblygu pecyn cymorth cynllunio gweithlu yn seiliedig ar y chwe cham canlynol: 1. Disgrifio eich cynllun, 2. Mapio'r newid gwasanaeth, 3. Diffinio'r gweithlu, 4. Cyflenwi'r gweithlu, 5. Diffinio'r camau gweithredu sydd eu hangen, 6 Gweithredu a monitro.

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
|---|---|
| • adnoddau ariannol digonol i gyflawni strategaeth neu gynllun y gweithlu. | Dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol, mae gan Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol sy’n cynnwys 23 o bobl arweinwyr sy’n cefnogi gwahanol agweddau ar gynllunio’r gweithlu gweithredol a strategol, er enghraifft, datblygu sefydliadol, diwylliant, ymgysylltu, recriwtio a dadansoddi data. Mae tîm bach o bartneriaid busnes hefyd sy’n ymgysylltu’n rheolaidd â chyfarwyddiadau. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydliad sy’n tyfu ac o’r herwydd bydd y galw ar y tîm yn parhau i gynyddu. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu model gweithredu a darparu busnes newydd, a fydd yn gofyn am gyfraniad sylweddol gan y Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol. Bydd angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru adolygu capasiti’r tîm yn gyson ac addasu ei adnoddau a’i gynlluniau gweithlu, yn ôl yr angen.<br><br>Mae cynllun gweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael ei gostio yn rhan o’i broses datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig blynyddol. Yn y tymor byr, dangoswyd bod hyn yn fforddiadwy, ac mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn adrodd cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2022–23, er bod hyn yn rhannol oherwydd swyddi gwag na chafodd eu llenwi. Adroddodd y sefydliad nad yw cyllid tymor byr neu dros dro, megis ar gyfer y tîm recriwtio ac ar gyfer prosiectau (gan gynnwys staff) a ariennir trwy’r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF), yn caniatáu proses cynllunio gweithlu sy’n fwy hirdymor a chynaliadwy.<br><br>Dylai’r gwaith y mae’r sefydliad yn ei wneud i ddatblygu cynlluniau gweithlu y gyfarwyddiaeth ymhellach ac i wella gwybodaeth am y gweithlu helpu’r sefydliad i ddeall ei weithlu yn well a chynllunio gwasanaethau cynaliadwy, drwy greu cyfleoedd am gynlluniau cyllid a gweithlu cydgysylltiedig. |

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
|---|---|
| Gwnaethom ystyried a oes gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddealltwriaeth dda o'r risgiau tymor byr a hirdymor a allai ei hatal rhag cyflawni ei strategaeth neu gynllun y gweithlu. Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• dealltwriaeth dda o'r rhwystrau a allai atal strategaeth neu gynllun y gweithlu rhag cael ei gyflawni;<br>• cynlluniau i liniaru risgiau a allai atal y sefydliad rhag cyflawni ei uchelgeisiau gweithlu; a<br>• risgiau gweithlu sydd wedi eu dogfennu'n glir a reolir ar y lefel briodol. | Canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn deall, yn rheoli'n weithredol ac yn lliniaru risgiau i'r gweithlu**. **Wrth i'r sefydliad ddatblygu ei gynlluniau gweithlu ar gyfer y gyfarwyddiaeth, gallai nodi risgiau gweithlu newydd a bydd angen iddo sicrhau bod y rhain yn cael eu cipio a'u rheoli'n effeithiol**.<br><br>Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn deall y risgiau a allai ei atal rhag cyflawni ei uchelgeisiau mewn cysylltiad â'r gweithlu. Mae'r rhain yn ymwneud â recriwtio staff medrus mewn amgylchedd sy'n gystadleuol yn fasnachol. Er bod y rhai sy'n ymuno yn parhau i fod yn fwy na'r rhai sy'n ymadael, mae nifer o swyddi gwag o hyd yn y sefydliad. Nid yw'r sefydliad yn ddiogel rhag yr heriau ariannol ehangach sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ychwaith.<br><br>Mae'r sefydliad yn nodi ac yn rheoli risgiau gweithlu strategol a chorfforaethol yn briodol drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'i broses rheoli risgiau corfforaethol. Ym mis Gorffennaf 2023, roedd gan y gofrestr risgiau corfforaethol un risg gweithlu yn gysylltiedig â materion recriwtio. Mae'r risg, sy'n cael ei chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Fforwm Partneriaeth Lleol, yn cael ei rheoli a'i hadolygu'n gyson. Yn ddiweddar, cafodd y sgôr risg ei israddio o 16 i 12, sy'n dangos bod y camau lliniaru y mae'r sefydliad yn eu cymryd yn gwneud gwahaniaeth.<br><br>Wrth i'r sefydliad barhau i ddatblygu ei gynlluniau gweithlu ar gyfer y gyfarwyddiaeth, bydd ganddo ddealltwriaeth gliriach o gapasiti a heriau y gweithlu cyfredol ac, o ganlyniad, gallai nodi risgiau newydd i'r gweithlu y mae angen iddo eu rheoli (**Argymhelliad 2**). |
| Gwnaethom ystyried a yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn mynd i'r afael â'i heriau | Canfuom fod **y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i reoli ei heriau cyfredol yn y gweithlu, drwy weithgareddau recriwtio, cadw, a datblygu**. |

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
|---|---|
| gweithlu cyfredol yn effeithiol. Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• swyddi gwag yn cael eu hadrodd a'u rheoli'n effeithiol;<br>• camau gweithredu i gadw staff yn well;<br>• arferion recriwtio effeithlon;<br>• tystiolaeth bod y sefydliad yn moderneiddio ei weithlu i helpu i ddiwallu anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol. | Fel yr archwilir uchod, y gallu i reoli swyddi gwag yw prif risg gweithlu corfforaethol Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ym mis Mawrth 2022, roedd swyddi gwag Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyfrif am 7% o gyfanswm ei sefydliad (**Arddangosyn 10**). Er bod hyn yn is na chyrff iechyd eraill yng Nghymru, mae angen i'r sefydliad sicrhau ei fod yn rheoli lefelau swyddi gwag yn effeithiol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn wynebu amgylchedd cystadleuol lle mae angen sgiliau digidol ac yn aml gall y sector preifat dalu mwy. Mewn ymateb, mae'r sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol i reoli ei swyddi gwag, er enghraifft, drwy weithio gyda phrifysgolion lleol i hyrwyddo dewisiadau gyrfa drwy bartneriaeth Athrofa Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI), mynd i ffeiriau recriwtio ac ymgyrchoedd recriwtio.<br><br>Hefyd, bydd cynlluniau gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod gan y sefydliad ddata swyddi gwag o ansawdd da. Nid yw'r sefydliad yn gwario llawer ar staff asiantaeth (**Arddangosyn 7**) ac mae ganddo brosesau recriwtio effeithlon ac amserol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi sefydlu Grŵp Adnoddau Strategol yn ddiweddar. Dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, a chan gwrdd bob mis, mae'r grŵp yn goruchwylio adnoddau y sefydliad. Er enghraifft, gofynion, dewisiadau, gweithgaredd a risgiau adnoddau. Ond mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y grŵp hwn.<br><br>Mae llesiant y staff yn agwedd bwysig ar sicrhau bod y sefydliad yn cadw ei staff. Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru un o'r cyfraddau salwch isaf o'u cymharu â chyrff iechyd eraill yng Nghymru (**Arddangosyn 11**) ac mae'n cyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer salwch. Mae'r sefydliad hefyd yn buddsoddi yn ei staff drwy eu datblygu nhw ar gyfer uwch-swyddogaethau. Yn 2022–23, 8.1% oedd trosiant staff Iechyd a Gofal Digidol Cymru (darparwyd y ffigur diweddaredig drwy Gofnod Staff Electronig tuag at ddiwedd yr astudiaeth) (**Arddangosyn 9**); er bod hyn yn isel o'i gymharu â chyrff iechyd eraill, roedd y sefydliad wedi pennu targed uchelgeisiol o 7.5% neu is ar ei gyfer ei hun ar y pryd. Nid yw'n glir pam fo'r mwyafrif o'r staff yn gadael, oherwydd nad yw'r rhesymau yn cael eu |

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
| --- | --- |
| | datgelu neu oherwydd eu dosbarthu fel rhesymau 'eraill'. Ond pan fo hyn yn hysbys, mae 22% yn gadael oherwydd dyrchafiad yn y GIG ac mae 12% yn gadael am gyflog gwell. Ar ôl eu datblygu, dylai cynlluniau gweithlu y gyfarwyddiaeth helpu i amlygu a mynd i'r afael â 'mannau problemus' lle bo'r trosiant yn uchel.<br><br>Ers y pandemig, fel sefydliadau eraill, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi mabwysiadu patrwm gweithio hybrid. Er mwyn cefnogi'r ffordd newydd hon o weithio, mae'r sefydliad wedi datblygu a gweithredu Polisi Gweithio Hybrid a phecyn cymorth ar gyfer y staff a'r rheolwyr. Mae arolygon staff yn dangos bod y staff yn gwerthfawrogi gweithio hybrid ac y byddent yn amharod i ddychwelyd i weithio llawn amser mewn swyddfa. O ystyried heriau recriwtio Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae gweithio hybrid yn fudd sy'n caniatáu i'r sefydliad recriwtio o ardal ddaearyddol ehangach. |

**Arddangosyn 4: monitro a goruchwylio'r cynllun gweithlu/y broses o gyflawni'r strategaeth**

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar gadernid y broses o oruchwylio risgiau gweithlu yn gorfforaethol. Canfuom **er bod y Bwrdd yn parhau i oruchwylio materion y gweithlu'n rhesymol, fod angen iddo ganolbwyntio'n gryfach ar y graddau y mae'r camau gweithredu yn cael effaith**.

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
|---|---|
| Gwnaethom ystyried a yw'r broses o gyflawni strategaeth neu gynllun gweithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael ei chefnogi gan fonitro, goruchwylio ac adolygu cadarn. Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• trefniadau ar waith i fonitro cynnydd strategaeth neu gynllun y gweithlu ar lefelau rheolwyr a phwyllgor;<br>• camau gweithredu effeithiol pan fo cynnydd ar elfennau o strategaeth neu gynllun y gweithlu oddi ar y trywydd iawn;<br>• adroddiadau perfformiad sy'n dangos effaith cyflawni strategaeth neu gynllun y gweithlu;<br>• y sefydliad yn meincnodi ei berfformiad gweithlu â sefydliadau tebyg. | Canfuom fod **gan y Bwrdd oruchwyliaeth resymol o wybodaeth perfformiad y gweithlu a'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, ond bod cyfleoedd i wella metrigau gweithlu ac i bwysleisio'n fwy ar effaith**.<br>Oherwydd maint y sefydliad, nid oes gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru bwyllgor pobl, yn lle hynny mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar fetrigau'r gweithlu drwy ei Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig (IOPR). Mae'r adroddiad perfformiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o'i gymharu â metrigau safonol y gweithlu megis salwch, trosiant, cyfraddau arfarnu, a chydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol. O ystyried twf y sefydliad a bod rheoli swyddi gwag yn risg gorfforaethol, mae'n syndod nad yw'r adroddiad yn cynnwys ffigurau'r sefydliad na chyfraddau swyddi gwag. Mae'r sefydliad yn edrych ar fwy o fanylion sy'n cwmpasu gofynion gallu ar lefel y gyfarwyddiaeth, gan adolygu lefelau sgiliau o'u cymharu â fframwaith gyrfa proffil DDaT+ (digidol, data a thechnoleg a mwy), proffil oedran a graddau y staff. Wrth i'r data hyn aeddfedu, dylai'r sefydliad adolygu'r metrigau gweithlu a gyflwynir i'r Bwrdd gyda'r bwriad o'u hehangu nhw, gan gynnwys fel y bo'n briodol, naratif am gamau gweithredu i fynd i'r afael â thanberfformiad ac effaith newidiadau i'r gweithlu ar y broses o ddarparu gwasanaeth (**Argymhelliad 3**). Ar lefel weithredol, mae'r Grŵp Adnoddau Strategol a'r Tîm Uwch-reolwyr yn adolygu'r metrigau gweithlu gyda'r nod o wella a mynd i'r afael â phryderon perfformiad.<br>Ym mis Medi 2023, derbyniodd y Bwrdd adroddiad cynnydd blwyddyn un ar y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Mae'r adroddiad naratif yn rhoi trosolwg da o'r cynnydd. Mae'n amlwg bod y sefydliad wedi gwneud dechrau da o ran cyflawni ei uchelgeisiau mewn cysylltiad â'r gweithlu. Mae bellach yn parhau â gwaith y Grŵp Adnoddau Strategol, partneriaid busnes y tîm Pobl a Datblygu |

| Yr hyn yr oeddem yn edrych arno | Yr hyn a ganfuwyd gennym |
| --- | --- |
| | Sefydliadol er mwyn cefnogi rhaglenni newid sefydliadol, a lansio cam nesaf ymarfer strategol y broses o gynllunio'r gweithlu. Er bod y diweddariad yn gadarnhaol, byddai'r adroddiad yn elwa o adrodd o'i gymharu â'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan ei bod yn anodd mesur union gynnydd ac effaith camau gweithredu. Byddai cynllun gweithredu gyda mesurau effaith, cerrig milltir allweddol, a thargedau ac arweinwyr ar gyfer pob cam gweithredu yn gwella Sicrwydd y Bwrdd ymhellach (gweler **Argymhelliad 3**). Gan nad oes gan y sefydliad bwyllgor 'pobl/gweithlu' penodol, byddai adrodd o gymharu â chynllun gweithredu o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn sicrhau bod y Bwrdd yn pwysleisio ar faterion gweithlu, gan dderbyn sicrwydd ar y broses o gyflawni'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (**Argymhelliad 4**).<br><br>Mae'r sefydliad yn cynnal gwaith meincnodi gweithlu cyfyngedig ac mae'r hyn a wneir yn tueddu i ganolbwyntio ar gyflogau'r diwydiant a throsiant y staff. Dywedodd y sefydliad, oherwydd cylch gwaith unigryw Iechyd a Gofal Digidol Cymru, nad oedd llawer o werth mewn meincnodi gwybodaeth ei gweithlu o'i chymharu â chyrff iechyd eraill yng Nghymru. Er, fel pob corff iechyd, fod y sefydliad yn cyflwyno gwybodaeth am y gweithlu i AaGIC fel mater o drefn. |

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosiad 5** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosiad 5: y dull a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn**


| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Strategaeth y gweithlu a chynllun(iau) sy'n gysylltiedig â'r gweithlu<br>• Cynlluniau gweithredu/cyflawni ar gyfer strategaeth y gweithlu—lefel uchel a gweithredol<br>• Tystiolaeth o werthuso strategaeth y gweithlu a/neu fentrau cysylltiedig<br>• Gwybodaeth sy'n cyfrannu at ddatblygiad strategaeth y gweithlu ee asesiad o'r anghenion, data am y gweithlu, ymarferion meincnodi, y galw a chynllunio'r capasiti, dadansoddiad o'r bwlch sgiliau, sganio'r gorwel.<br>• Tystiolaeth o ymgysylltiad â rhanddeiliaid<br>• Siartiau strwythur ar gyfer swyddogaethau cynllunio'r gweithlu<br>• Enghreifftiau o'r hyfforddiant cynllunio gweithlu a gynigir i'r staff ee CIPD, hyfforddiant arall—ffurfiol neu anffurfiol<br>• Cynlluniau cyllid ac adnoddau'r gweithlu<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, cofrestrau risg corfforaethol a gweithredol<br>• Dogfen sy'n dangos proses recriwtio a mentrau recriwtio a chadw.<br>• Goruchwyliaeth ar lefel gorfforaethol a gweithredol a monitro metrig y gweithlu a'r broses o gyflawni'r strategaeth |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol:<br>• Y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Uwch-bartner Busnes Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Y Pennaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol<br>• Cynrychiolydd Undebau Llafur, Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd (Unite)<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd<br>• Pennaeth Archwilio Mewnol, Tâl Salwch Statudol |

# Atodiad 2


## Dangosyddion gweithlu dethol

**Arddangosyn 6: y tuedd yn niferoedd y gweithlu (cyfwerth ag amser llawn), Iechyd a Gofal Digidol Cymru**




Ffynhonnell: Ystadegau Cymru

**Arddangosyn 7: y duedd mewn costau gweithlu gwirioneddol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru**





Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol a adroddir i Lywodraeth Cymru


**Arddangosiad 8: tuedd y gwariant ar weithlu asiantaeth £ Miliynau, Iechyd a Gofal Digidol Cymru**




Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol a adroddir i Lywodraeth Cymru


**Arddangosfa 9: trosiant staff blynyddol a'r rheswm dros adael, Iechyd a Gofal Digidol Cymru**





Ffynhonnell: data trosiant staff a gafwyd yn wreiddiol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac a ddiweddarwyd gan y corff iechyd (drwy Gofnod Staff Electronig). Data rheswm dros adael o gais am ddata y corff iechyd

**Arddangosyn 10: swyddi gwag fel canran o gyfanswm y sefydliad, ym mis Mawrth 2022**




Ffynhonnell: cais am ddata y corff iechyd

**Arddangosyn 11: absenoldeb oherwydd salwch fesul sefydliad, 2022**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Stats Cymru

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 12: Ymateb Iechyd a Gofal Digidol Cymru i’n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Er bod y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cynnwys camau gweithredu a mesurau lefel uchel, dylai’r sefydliad ddatblygu cynllun gweithredu manwl i helpu i fonitro’r broses o gyflawni’r strategaeth. Dylai’r cynllun gweithredu gynnwys cerrig milltir, mesurau effaith, targedau, ac arweinydd cyfrifol ar gyfer pob cam gweithredu neu flaenoriaeth **(Blaenoriaeth uchel).** | Cynllun gweithredu manwl a ddatblygwyd i fonitro cynnydd y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (cyflawni ac effaith). Mae’r Cynllun Gweithredu yn cynnwys ffrydiau gwaith allweddol, amcanion a’i berchennog, effaith mesuradwy, llinell amser, asesiad o’r cynnydd.<br>Caiff hyn ei adolygu’n ffurfiol bob chwarter ac yn anffurfiol bob mis yng Nghyfarfod Arweinyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Dechreuodd yr adolygiad chwarterol ym mis Medi a dechreuodd yr adolygiad misol ym mis Awst 2023. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf o’r adolygiad chwarterol yn cyfrannu at yr wybodaeth diweddaraf chwech misol ffurfiol i Fwrdd Rheoli Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Strategol. Mae Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Strategol eisoes wedi cael adroddiad cynnydd ac wedi cadarnhau bod sicrwydd a chynnydd da o’u cymharu â ffrydiau gwaith allweddol. | Datblygwyd Cynllun Gweithredu Pobl a Datblygu Sefydliadol ym mis Mai 2023. Dechreuwyd adolygiad misol anffurfiol ym mis Awst 2023.<br><br>Dechreuwyd adolygiad ffurfiol chwarterol ym mis Medi 2023 a bydd yn cael ei adolygu bob chwarter ar ôl hynny—Rhagfyr 2023, Mawrth 2024, Mehefin 2024, Medi 2024. | **Y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol** |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu cynlluniau gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth ac yn gwella data am y gweithlu, sydd â'r potensial o dynnu sylw at risgiau newydd yn y gweithlu. Dylai'r sefydliad adolygu'r wybodaeth yn ei gofrestrau risg corfforaethol a strategol, gan ddefnyddio mewnwelediad newydd o gynlluniau'r gweithlu er mwyn nodi risgiau newydd posibl a'r ffynonellau sicrwydd ychwanegol y mae eu hangen **(Blaenoriaeth uchel)**. | Caiff gwybodaeth am y gweithlu yn y Gofrestr Risgiau Strategol Corfforaethol ei hadolygu a'i hadnewyddu'n rheolaidd yn ystod Fforwm Partneriaeth Leol, Grŵp Adnoddau Strategol, Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Strategol er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol i unrhyw newidiadau i risg sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.<br>Byddwn yn parhau i weithio gyda Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth i nodi unrhyw risgiau newydd i'r gweithlu ac yn datblygu cynlluniau ar y cyd i liniaru risgiau a allai atal Iechyd a Gofal Digidol Cymru rhag cyflawni ei uchelgeisiau gweithlu. Cyflawnir hyn drwy adolygu proffil y gweithlu yn rheolaidd a nodwyd o:<br>• gynlluniau Cynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i Strategaeth Ddigidol;<br>• Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth—nodi'r broses o gyflawni rhaglenni gwaith allweddol a blaenoriaethu sgiliau/gwybodaeth a phrofiad o ofynion y gweithlu;<br>• Partneriaid Busnes Cyllid—adolygu'r gofynion o'u cymharu ag amlen ariannol sefydledig;<br>• Partneriaid Busnes Pobl a Datblygu Sefydliadol—sganio'r gorwel er mwyn sicrhau bod y dalent gywir yn cael ei chaffael i gefnogi nodau tymor byr a hirdymor Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan sicrhau profiad cadarnhaol i'r cyflogeion er mwyn lleihau trosiant. | Adolygir y Gofrestr Risgiau Strategol Corfforaethol yn y cyfarfodydd canlynol:<br>• Fforwm Partneriaeth Lleol (deufisol)<br>• Grŵp Adnoddau Strategol (Misol)<br>• Yr wybodaeth ddiweddaraf am Adnoddau Wythnosol y Cyfarwyddwyr (Misol)<br>• Y Bwrdd Rheoli (Misol)<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (Chwarterol)<br>• Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Strategol (Deufisol) | **Y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol** |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Canfuom fod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth reolaidd, ond cyfyngedig, am berfformiad y gweithlu yn yr Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwella sylfaen ei wybodaeth am y gweithlu. Wrth i'r data am y gweithlu wella, dylai'r sefydliad adolygu'r metrigau gweithlu a gyflwynir i'r Bwrdd gyda'r bwriad o'u hehangu nhw, gan gynnwys naratif am gamau gweithredu i fynd i'r afael â thanberfformiad ac effaith newidiadau sy'n datblygu yn y gweithlu ar y broses o ddarparu gwasanaethau **(Blaenoriaeth uchel)**. | Wrth i'r sefydliad dyfu ac aeddfedu, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn parhau i adolygu ei fetrigau gweithlu a gyflwynir i'r Bwrdd. Cyflawnir hyn drwy gydweithredu â rhanddeiliaid allweddol (Grŵp Adnoddau Strategol, Fforwm Partneriaeth Lleol, Rhwydwaith Iechyd a Llesiant, Rhwydwaith Cydraddoldeb Strategol, Gweithredwyr a'r Bwrdd) i ddatblygu'r metrigau sydd bwysicaf yn awr ac yn y dyfodol ac sy'n gyson â'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol.<br><br>Rydym eisoes wedi datblygu Cronfa Ddata Adnoddau mewnol er mwyn adrodd a rheoli swyddi gwag staff yn effeithiol—mae'r data'n cael eu hadolygu a'u trafod yn y Grŵp Adnoddau Strategol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad a'i effaith ar y broses o ddarparu gwasanaeth. | Datblygu a chytuno ar gerrig milltir diwygiedig Gorffennaf 2024<br><br>Adolygu'n fisol yn y Grŵp Adnoddau Strategol | **Y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol** |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Ym mis Medi 2023, derbyniodd y Bwrdd adroddiad cynnydd un mlynedd ar gyflawni'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol; er ei fod yn gadarnhaol, mae fformat naratif yr adroddiad yn ei gwneud yn anodd mesur union gynnydd ac effaith y camau gweithredu. O leiaf ddwywaith y flwyddyn, dylai'r Bwrdd dderbyn diweddariad ar gynnydd y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol o'i gymharu â'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth, ac, ar ôl ei ddatblygu, o'i gymharu â'r cynllun gweithredu gan gynnwys metrigau allweddol **(Blaenoriaeth uchel)**. | Bydd yr adroddiad cynnydd ar gyflawni'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cael ei rannu â'r Bwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan dynnu sylw at y cynnydd o'i gymharu â'r ffrydiau gwaith allweddol er mwyn sicrhau ei fod yn cael sicrwydd ar gynnydd y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. | Mai 2024 a Thachwedd 2024 | Y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol |

Archwilio Cymru

1, Cwr y Ddinas,

Caerdydd

CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales